# Cymru: Papur briffio costau byw

Gorffennaf 2022

**YSTADEGAU NEWYDD COSTAU BYW WEDI'I RYDDHAU:** Mae ymchwil newydd (Gorffennaf 2022) yn dangos:

Mae **17% o bobl** yng Nghymru yn poeni **na fyddant yn gallu talu eu biliau ynni** yn ystod y 3 mis nesaf.

Mae 8% o bobl yng Nghymru neu fwy na **100,000 o aelwydydd eisoes yn byw ar gyllideb negyddol.**

Mae **33% o bobl yng Nghymru** yn rhagweld y bydd angen **torri i lawr neu roi'r gorau i wario ar fand eang** yn y 6 mis nesaf

Ers mis Mawrth rydym wedi helpu mwy na **2000 o bobl** yng Nghymru i gael mynediad at **dalebau tanwydd** a **7700 o bobl** ag **atgyfeiriadau banc bwyd.**

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y papur briffio hwn, cysylltwch â:* *policy.cymru@citizensadvice.org.uk*

## Sioc i filoedd wrth i'r cap pris ynni neidio eto

Gyda rhagolygon newydd gan ddadansoddwr diwydiant Cornwall Insight yn rhagweld **cap pris o £3,244 o fis Hydref** (£106 y mis yn fwy na'r cap prisiau presennol), rydym yn gwybod nad yw aelwydydd eto'n wynebu diwedd yr argyfwng hwn.[1] Dengys ein harolwg newydd fod aelwydydd yn agored i gynnydd pellach eleni a'u bod eisoes yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â chostau cynyddol.[2] Er y croesewir cefnogaeth gan lywodraethau Cymru a'r DU, mae ffigurau newydd yn awgrymu bod llawer o aelwydydd yn dal yn debygol o'i chael hi'n anodd bodloni eu hanghenion sylfaenol yn y misoedd nesaf.

Er gwaethaf y cymorth sydd ar gael, rydym yn clywed gan gleientiaid sydd eisoes yn methu â thalu eu costau ac yn poeni am y flwyddyn i ddod. I bobl sy'n ei chael hi'n anodd yn awr, rydym yn pryderu y gallai pobl a allai gronni dyledion neu sydd angen ddefnyddio cymorth brys fel banciau bwyd a thalebau tanwydd ar yr adeg hon o'r flwyddyn, fod yn arbennig o agored i gynnydd pellach mewn costau yn y misoedd i ddod.

# Materion allweddol i gynllunwyr polisi

1. **Mae rhai pobl yng Nghymru eisoes yn wynebu costau sy'n fwy na'u hincwm neu heb fawr o hyblygrwydd yn eu cyllideb**

- Mae ein harolwg diweddar yn amcangyfrif bod **8% o bobl yng Nghymru** neu fwy na 100,000 o aelwydydd eisoes yn **byw ar gyllideb negyddol**.[3]
- Mae gan **11% arall o bobl yng Nghymru** (bron i 149,000 o aelwydydd) **£100 neu lai** ar ôl costau.
- Ym mis Mawrth, cyn y cynnydd diweddaraf yn y cap ar brisiau ynni — cyrhaeddodd % **cleientiaid dyled Cyngor ar Bopeth** a oedd yn **byw ar gyllideb negyddol 46%.** Cynnydd o 36% o ddechrau 2019.

2. **Mae aelwydydd eisoes ar ei hôl hi o ran talu biliau neu'n poeni y byddant yn fuan**

- Er gwaethaf cefnogaeth mae ein harolwg diweddar yn dangos bod **28% o bobl Cymru ar ei hôl hi ar hyn o bryd ar fil neu daliad** ac yn fwyaf tebygol o fod ar ei hôl hi o ran biliau treth gyngor, dŵr neu ynni. I bobl sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â biliau, mae'n bosibl y bydd y cymorth ariannol a ddarperir gan y llywodraeth yn cael ei amsugno gan eu hôl-ddyledion yn hytrach na'u helpu i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol yn y misoedd nesaf.
- Gwyddom hefyd fod pobl yn poeni a allant fforddio taliadau biliau hanfodol yn ystod y misoedd nesaf. Ym mis Mehefin, **dywedodd 17% nad oeddent yn hyderus** y byddent yn gallu **cadw i fyny â'u biliau ynni** dros y 3 mis nesaf, **dywedodd 13% hyn am eu rhent**, a **12%** hyn am y **dreth gyngor** a **chostau bwyd.**

3. **Mae llawer o bobl yng Nghymru eisoes yn torri'n ôl**

- Amcangyfrifodd arolygon barn diweddar fod **41% o bobl** yng Nghymru eisoes **wedi torri'n ôl/rhoi'r gorau i wario ar ynni** a **51%** wedi **torri'n ôl/rhoi'r gorau i wario ar fwyd/nwyddau cartref** dros y 6 mis diwethaf.
- Wrth edrych i'r dyfodol, rhagwelir y bydd angen iddynt dorri'n ôl dros y 6 mis nesaf, ar filiau hanfodol, megis **ynni** (53%) a **bwyd/nwyddau cartref** (56%), ac ar gostau eraill fel **band eang** (33%) a **chytundebau ffonau symudol** (34%).

[1] Cornwall Insight, Rhagolwg cap tariff diofyn, Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022
[2] I edrych ar effaith y cynnydd mewn costau byw, fe wnaethom gomisiynu ICM Unlimited i gynnal arolwg o 6000 o oedolion yn y DU gyda sampl wedi'i phwysoli o 517 o oedolion yng Nghymru, a chynhaliwyd Gwaith Maes rhwng 27 Mai - 17 Mehefin 2022.
[3] Cyllideb negyddol: gyda £0 neu lai ar gyfer bwyd a chostau eraill ar ôl talu am dai a biliau rheolaidd eraill

cyngor ar bopeth | citizens advice